Young Enterprise
Menter yr Ifanc

A member of/Aelod o JA Worldwide

# COMPANY PROGRAMME

- GALLU ARIANNOL
- ENTREPRENEURIAETH
- PARODRWYDD AM WAITH

## YNGLŶN Â'R RHAGLEN

Mae'r Rhaglen Cwmni yn rhoi cyfle dysgu bywyd go iawn i bobl ifanc sy'n eu cyflwyno i fyd gwaith wrth iddyn nhw sefydlu a chynnal eu cwmni myfyrwyr eu hunain.

Gyda chefnogaeth yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch gwerth £10m, byddan nhw'n gwneud yr holl benderfyniadau mawr o ddod o hyd i gyfalaf cychwynnol i ddewis rolau cyfarwyddwr, lansio cynnyrch neu wasanaeth a rheoli arian eu cwmni.

Yn rhan o'r rhaglen, gall myfyrwyr sefydlu cyfrif cyfredol busnes ar gyfer eu cwmni myfyrwyr gyda Equals Money, a gwerthu i'r cyhoedd mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb ac yn ein siop ar-lein, sef YE Trading Station.



## NODWEDDION ALLWEDDOL

- Mae'n addas i bobl ifanc 13-19 oed
- Mae'n gallu para am 12 wythnos i hyd at flwyddyn academaidd
- Platfform penodol ar gyfer adnoddau ac arweiniad
- Cymorth gan wirfoddolwr busnes
- Y pris yw £560 yn unig fesul cwmni myfyrwyr (hyd at 32 o fyfyrwyr) ar gyfer ysgolion y wladwriaeth, neu £2,500 ar gyfer ysgolion annibynnol (mae gostyngiadau amleitem ar gael)



Mae tasgau gam wrth gam, gweithgareddau ac adnoddau ar gael ar ein platfform penodol, Company Connect, lle mae myfyrwyr yn rheoli proffil eu cwmni gyda'i gilydd.

Os bydd ar gael, bydd gwirfoddolwr busnes YE (sydd â thystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) yn cael ei neilltuo i gynnig cymorth ychwanegol.

Mae'n bosibl y bydd cyllid ar gael i grwpiau dethol o bobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi ymddieithrio ar hyn o bryd neu sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu, trwy ein rhaglen Ysbrydoli'r Dyfodol. Cysylltwch â'ch YE lleol i gael rhagor o wybodaeth a gwirio cymhwysedd.

*"Profiad gwych i fyfyrwyr a staff ei arwain. Mae amrywiaeth o sgiliau wedi cael eu datblygu y gellir eu trosglwyddo i addysg uwch a chyflogaeth."*

**– Addysgwr**

## CANLYNIADAU DYSGU O'R RHAGLEN CWMNI

Mae cymryd rhan yn y Rhaglen Cwmni yn annog pobl ifanc i:

- Ddatblygu hyder, ffordd fentrus o feddwl a sgiliau cyflogadwyedd
- Cael profiad ymarferol o waith, rolau swydd a gweithio mewn tîm
- Datblygu hunanymwybyddiaeth o gryfderau personol a meysydd i'w datblygu
- Datblygu cynnwys perthnasol ar gyfer ceisiadau i ddarparwyr addysg/ hyfforddiant a chyflogwyr yn y dyfodol
- Datblygu rhwydwaith proffesiynol
- Gosod nodau CAMPUS a chynllunio'r camau nesaf i gyflawni dyfodol llwyddiannus




## CYNNAL Y RHAGLEN A CHYSTADLAETHAU

Gellir cynnal sawl cwmni myfyrwyr o'r un ysgol, coleg neu ganolfan gyda hyd at 32 o fyfyrwyr ym mhob tîm. Gall cwmnïau myfyrwyr gymryd rhan mewn cystadlaethau lleol, sirol a rhanbarthol i ennill lle yn ein rownd derfynol genedlaethol, Cwmni'r Flwyddyn.

Gallan nhw hyrwyddo eu syniadau yn ein digwyddiadau cyflwyno i'r panel a gwerthu cynhyrchion wyneb yn wyneb mewn ffeiriau masnach lleol, gan ymestyn cyfleoedd i ddatblygu dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys siarad yn gyhoeddus, sgiliau cyfweld a rhwydweithio â myfyrwyr eraill.



## BUDDION YCHWANEGOL

- Mae'n cyflawni elfen sgiliau cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Gellir ei defnyddio i gefnogi Cymhwyster Prosiect Estynedig Pearson
- Mae'n cyfrannu tuag at Feincnodau Gatsby ar gyfer cyfarwyddyd gyrfaoedd da
- Mae'r myfyrwyr yn cael tystysgrif bersonol

THE GATSBY BENCHMARKS
GOOD CAREER GUIDANCE

IMPACT LEVEL 4 IMPACT LEVEL
Skills Builder
Progressing in essential skills
2026-27

## SUT GALLA' I GOFRESTRU?

I gael gwybod mwy neu gofrestru, ewch i young-enterprise.org.uk

Registered Charity 313697 in England & Wales and SC054666 in Scotland.